ATODLEN 7

Deunydd risg penodedig, cig a wahenir yn fecanyddol a thechnegau cigydda

**Anifeiliaid cynllun**

**16.**—(1) Wedi i'r deunydd risg penodedig gael ei dynnu ymaith o anifail buchol a gigyddir at ddibenion Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96, sy'n mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad eidion yn y Deyrnas Unedig (**1**), rhaid i'r meddiannydd sicrhau bod y gweddill (ac eithrio'r croen) yn cael ei staenio ar unwaith yn unol â pharagraff 15 fel y bo'r lliw yn weladwy ac yn parhau felly dros holl arwyneb y deunydd.

(2) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.

(**1**) OJ Rhif L 99, 20.4.1996, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005 (OJ Rhif L 337, 22.12.2005, t. 25).